

1. Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn i mi weld p'un ai un peth yn ei gyfanrwydd yw'r shari'a ai peidio. Byddaf yn gwneud hyn drwy edrych ar sut gall hyn fod felly.

Yn gyntaf oll, mae pob Mwslim yn cytuno mai'r shari'a yw'r arweiniad terfynol i'r ddynoliaeth. Mae'r Qur'an yn dweud ei fod yn rhoi gwybod i bobl beth i'w wneud a sut mae gweddio a byw eu bywydau.

Yn ail, mae'r ddadl os mai Ummah – brawdoliaeth – yw'r gymuned Fwslimaidd ac os yw hi'n unedig, yna byddan nhw i gyd yn ufuddhau i gyfraith shari'a ac felly mae'n cadarnhau'r ffaith y gall fod un ffordd o edrych ar y shari'a.

Yn ogystal, mae ffyrdd penodol o ddeall a darllen shari'a a'r ysgolheigion dysgedig yn unig, sy'n cytuno, sy'n gallu dweud mewn gwirionedd sut dylai Mwslim fyw. Felly mae'n rhoi un arweiniad eglur i fodau dynol. Mae ysgolheigion yn cadarnhau hyn.

I gloi, byddai Mwslimiaid yn dadlau mai un ffordd yn unig sydd o edrych ar y shari'a ac os ydych chi'n Fwslim, yna fel hyn dylai fod yn gymwys i'ch bywyd chi.

2. Ar y naill law, yn y gorllewin mae'r syniad o shari'a yn atgoffa pobl o'r holl ddelweddau tywyllaf o Islam: gormesu menywod, cosbau corfforol a'r gosb eithaf. Er enghraifft, dywed Tariq Ramadan, 'Yn y gorllewin mae'r syniad o shari'a yn eu hatgoffa o'r holl ddelweddau tywyllaf o Islam: gormesu menywod, cosbau corfforol, llabyddio' a hefyd mae'n dadlau oherwydd hyn 'dydy llawer o ysgolheigion Mwslimaidd ddim hyd yn oed yn mentro cyfeirio at y cysyniad rhag ofn y byddan nhw'n codi ofn ar bobl'. Ond, ar y llaw arall, yn ôl Islam, ystyrir mai dyma'r fendith mwyaf ac mae'n rhoi arweiniad i gael bywyd llwyddiannus yn y byd er mwyn paratoi at fywyd ar ôl marwolaeth. Fel dywed Frederick Denny, 'Yn hytrach na bod yn faich annymunol neu lethol, ystyrir mai dyma'r fendith a'r arweiniad mwyaf ar gyfer bywyd cymunedol llwyddiannus ac unigol'.

Po fwyaf sy'n cael ei ddysgu am natur shari'a, gellid dadlau mai mwyaf anodd yw esbonio'n union beth yw e. Ond, os cymerwn ni'r term fel y caiff ei ddeall yn llythrennol, dyma'r 'llwybr' (i'r ffynnon); mae'r ddelwedd o ddŵr a ddefnyddir yn dwyn i gof torri syched, lluniaeth a ffynhonnell sy'n rhoi bywyd. Mae'n gymhariaeth bwerus iawn i Islam, crefydd a darddod yn niffeithdiroedd Saudi Arabia. Mae'r Sura cyntaf yn datgan: "Dangos y llwybr cul i ni" (adnod 6) neu dyma gyfieithiad arall "Arwain ni at y llwybr cul ac ynddo" (cyf. Abdullah Yusuf Ali) gan gyfeirio at natur gyfannol Islam neu shari'a. Felly, dadl arall bosibl yw mai dyma'r llwybr cyflawn y mae Allah wedi'i neilltuo i Fwslimiaid er mwyn iddyn nhw fyw'n llawn. Bywyd ei hun, neu din, ffordd gyflawn o fyw sy'n cael ei byw yn ôl ewyllys Allah.

Serch hynny, awgrymir hefyd mai 'cyfraith' yw shari'a; cyfeirir ato'n aml fel "cyfraith" shari'a, neu "y gyfraith". Fel hyn, mae shari'a yn aml yn cael ei gyflwyno mewn goleuni negyddol, neu ar y gorau, rhoddir dealltwriaeth gul iawn o'i swyddogaeth sydd wedi'i chyfyngu i agweddau

cymdeithasol yn unig.

Yn groes i'r ddealltwriaeth hon, mae'r ddadl sy'n awgrymu bod y gair 'cyfraith' yn aml yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd gyffredinol, sy'n cwmpasu bywyd ac sydd hefyd yn ysbrydol. Yn wir, dywed Turner, '...nid oes y fath beth ag arfer neu weithred sy'n gynhenid sanctaidd, grefyddol neu 'Islamaid': mae gweithred ond cystal, cyn waethed neu mor fydol â'r bwriad y mae'n deillio ohono a'r agwedd sy'n sail iddo.'

Felly mae'n amheus a yw'r gair 'cyfraith' yn dehongli shari'a yn ei ystyr buraf yn briodol. Un agwedd yn unig ar natur shari'a yw'r hyn y mae pobl fel arfer yn ei olygu wrth 'gyfraith shari'a', a bydd yr ateb hwn yn edrych ar yr agweddau eraill.

Yng ngoleuni hyn, y ffordd orau o ddeall shari'a yw fel 'ffordd' neu 'lwybr' y mae Allah yn arwain Mwslimiaid ato ac un sy'n cynnwys pob agwedd ar fywyd. Mae syniad arweiniad yn y Qur'an yn cefnogi hyn. Eto, dywed Sura 2: "Dyma'r Llyfr; Mae'n gadarn ei arweiniad, yn ddi-os." Felly, defnyddir Shari'a i gyfeirio at Islam ei hun, crefydd heddwch ac at ymddygiad Mwslim, hynny yw, un sy'n ufuddhau i Allah.

Adborth

Does dim sôn am unrhyw ysgolheigion yn yr enghraifft gyntaf hon. Hefyd mae'n gwastraffu amser yn dweud pethau amlwg. Arwyddion peryglus yw nad yw'r ymgeisydd wir eisiau gwerthuso ond mae'n edrych ar 'sut gallai fod felly' yn unig. Mae rhai cyfeiriadau annelwig at y Qur'an ond dydy'r rhain ddim yn hollol gywir. Mae'r deunydd i gyd yn berthnasol ac mae peth rhesymu i gefnogi'r gosodiad ond ar lefel arwynebol yn unig mae hyn. Mae angen datblygu rhai o'r pwyntiau er mwyn egluro sut roedden nhw'n cefnogi'r gosodiad. Mae pwynt da am yr ummah ond dim datblygiad gwirioneddol o ran sut gall fod amrywiaeth neu undod wrth gymhwyso shari'a ynghyd â thystiolaeth ac enghreifftiau. Fodd bynnag, y gwendid mwyaf difrifol yw ei fod yn unochrog yn unig. Dydy'r pwyntiau sy'n cael eu gwneud ddim yn cael eu herio a does dim achos arall dros y farn fod shari'a mewn gwirionedd yn gallu cael ei weld mewn llawer o wahanol ffyrdd a dydy hyn ddim yn golygu nad yw'n gydlynol. Mae'r clo'n gyffredinol ac yn unochrog iawn.

Yr ail enghraifft yw'r enghraifft orau o'r ddwy. Mae paragraff rhagarweiniol da iawn sy'n mynd ati'n syth i drafod yr ateb. Mae'n dangos yn syth y gallwn weld dwy ffordd o edrych ar y shari'a ac mae'n defnyddio cefnogaeth ysgolheigaidd. Pan ymosodir ar y ddadl hon a phan fydd yr ateb yn mynd yn ôl i edrych ar shari'a mewn ffordd sy'n cwmpasu popeth, ceir defnydd da o ddyfyniadau gan ysgolheigion a chyfeiriad uniongyrchol at y Qur'an. Mae strwythur y ddadl yn dangos proses o ymresymu. Mae'n ymateb i bwyntiau a wnaed ac mae'n codi gwrthbwyntiau sydd wedyn yn cael eu trin. Wedyn datblygir y ddadl yn gasgliad gyda chyfeiriadau o'r Qur'an ac mae'r ymresymu'n cael ei gefnogi gan y drafodaeth sy'n ei ragflaenu. Os ydyn ni wir yn feirniadol, mae'r ddadl yn cael ei hailadrodd ychydig; ond mater bach yn unig yw hyn.

'Dim ond canllaw a ddatblygodd bodau dynol yw cyfraith shari'a.' Gwerthuswch y safbwynt hwn gan gyfeirio at Islam.

Y mater i'w drafod yma yw mai canlyniad llunio gan fodau dynol yw'r shari'a. Mae'n bosibl dadlau bod hyn yn wir i ryw raddau gan fod y Qur'an hyd yn oed wedi cael ei lunio gan ysgrifenyddion Muhammad. Ond, ar y llaw arall mae'r Qur'an, yn ôl Mwslimiaid, yn dod oddi wrth Dduw.

Ar ôl marwolaeth Muhammad casglodd y gymuned syniadau ynghyd a'u hysgrifennu gan lunio'r traddodiad (hadith). Ond, cafodd hyn ei wneud yn ofalus iawn a'i brofi fel ei fod yn gywir fel ei fod yn gallu bod yn ddilys.

Yn ogystal, cafodd ysgolion y gyfraith eu datblygu i wneud yn siŵr fod popeth yn ei le. Serch hynny, mae rhai o'r ysgolion y gyfraith yn wahanol i'w gilydd.

Yn olaf, cafodd y drws i ijihad ei gau ac roedd datguddiad a chytundeb terfynol y shari'a wedi cael ei sefydlu a'i amddiffyn gan Allah. Ond, mae rhai'n dadlau bod lle o hyd i ragor o ddehongli a chymhwysu'r shari'a.

Dyfyniadau

- Pan fu farw Muhammad, daeth y datguddiad dwyfol i ben; ond, ni ddaeth yr alwad Fwslimaidd i ddilyn cyfraith Dduw i ben. (John Esposito)
- Mae cryn dipyn o'r agwedd foebol sylfaenol hon a adlewyrchir yn nherminoleg 'gwaharddedig' a 'caniateir' yn cyfateb i'r hyn sydd yng nghrefyddau'r Dwyrain Agos yn gyffredinol ac yn y Beibl yn enwedig. Weithiau gwelir bod pethau tebyg fel hyn yn mynd ymhellach. Weithiau mae pobl yn cymharu 'deg gorchymyn' y Beibl a Sura 17 adnodau 22–39. (Andrew Rippin)
- I rai Mwslimiaid, mae ei bwysigrwydd yn ganllaw i faterion teuluol. I eraill, mae'n system wleidyddol o gyfreithiau i redeg cymdeithas. Does dim un system shari'a y mae pob Muslim yn cytuno arni. Serch hynny, mae Mwslimiaid yn gyffredinol yn cytuno y dylai rheolau a chyfreithiau mewn Islam fod yn seiliedig ar nifer o ffynonellau. (Idris Morar)
- Roedden nhw'n cynnwys celwyddau duwiol gan y rhai a oedd yn credu bod eu harferion yn cydymffurfio ag Islam a ffugiadau gan garfannau a oedd yn ymwneud â dadleuon gwleidyddol a diwinyddol. (John Esposito)
- Diffiniodd cyfreitheg Islamaidd glasurol y gymuned mewn ystyr fwy cyfyngedig fel y gymuned o ysgolheigion cyfreithiol neu awdurdodau crefyddol sy'n gweithredu ar ran y gymuned Fwslimaidd gyfan ac yn ei harwain. (John Esposito)